General Medical Council

Safonau proffesiynol

Yn dod i rym: 22 Ebrill 2013

# Credoau personol ac arfer meddygol


## Crynodeb

Mae'r canllawiau hyn yn edrych ar sut gallwch chi ymarfer yn unol â'ch credoau personol eich hun heb dorri hawliau eich cleifion. Maent yn egluro beth i'w wneud os nad ydych chi am ymgymryd â thriniaeth benodol oherwydd eich credoau eich hun. Maent hefyd yn esbonio beth i'w wneud os yw claf yn gofyn am driniaeth neu'n gwrthod triniaeth oherwydd ei gredoau.

Mae'r canllawiau'n cynnwys cyngor penodol ar ddelio â cheisiadau gan rieni am driniaethau, er enghraifft enwaediad gwrywaidd. Maent yn cynnwys sut i asesu lles pennaf y plentyn a phwy y mae angen i chi gael cysyniad ganddo.

General Medical Council

# *Credoau personol ac arfer meddygol*

**Safonau proffesiynol: Canllawiau manylach**

**Daeth y canllawiau hyn i rym ar 22 Ebrill 2013.**

**Cafodd y canllawiau hyn eu diweddaru ddiwethaf ar 13 Rhagfyr 2024.**

Gallwch weld y fersiwn ddiweddaraf o'n holl safonau proffesiynol trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.

The GMC is a charity registered in
England and Wales (1089278)
and Scotland (SC037750).

# Cynnwys

Credoau personol ac arfer meddygol ........ 1
Gwerthoedd a chredoau personol mewn arfer meddygol ........ 4
Credoau personol meddygon ........ 4
Materion cyfreithiol ........ 4
Gwrthwynebiad cydwybodol ........ 5
Sut allai credoau personol claf effeithio ar eu gofal iechyd? ........ 6
Triniaethau a ddarperir am resymau crefyddol neu ddiwylliannol yn bennaf ........ 7
Cleifion sy'n gwrthod triniaeth ........ 8
Trafod credoau personol gyda chleifion ........ 9
Atodiad cyfreithiol ........ 9
Deddf Erthyliadau 1967 ........ 9
Deddf Ffrwythloniad Dynol ac Embryoleg 1990 ........ 10
Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 ........ 10
Deddf Cydraddoldeb 2010 (a deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon) ........ 10
Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 ........ 11
Deddf Hawliau Dynol 1998 ........ 11
Ôl-nodiadau ........ 11

**1.** Yn *Arfer meddygol da*,[1] rydym yn nodi:

**6.** Rhaid i chi ddarparu gofal ac arfer o safon da. Os byddwch yn asesu, yn rhoi diagnosis neu'n trin cleifion, rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â nhw i asesu eu hanghenion a'u blaenoriaethau. Rhaid i'r ymchwiliad neu'r driniaeth y byddwch yn ei chynnig, yn ei darparu neu'n ei threfnu fod yn seiliedig ar yr asesiad hwn, ac ar eich barn glinigol am effeithiolrwydd tebygol y dewisiadau o ran triniaethau.

**19.** Rhaid i chi drin cleifion yn deg. Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn eu herbyn na chaniatáu i'ch safbwyntiau personol effeithio ar eich perthynas gyda nhw, na'r driniaeth rydych yn ei darparu neu'n ei threfnu. Rhaid i chi beidio â gwrthod neu oedi triniaeth oherwydd eich bod yn credu bod gweithredoedd neu ddewisiadau claf wedi cyfrannu at eu cyflwr.

**21.** Os oes gennych chi wrthwynebiad cydwybodol i driniaeth benodol, rhaid i chi sicrhau nad yw'r ffordd yr ydych yn rheoli hyn yn rhwystro claf rhag cael mynediad at ofal priodol i ddiwallu eu hanghenion. Rhaid i chi ddilyn y canllawiau ym mharagraff 87 a'n canllaw manylach ar *Gredoau personol ac arfer meddygol*.

**56.** Rhaid i chi beidio â cham-drin, gwahaniaethu yn erbyn, bwlio nac aflonyddu ar unrhyw un ar sail eu nodweddion personol, neu am unrhyw reswm arall. Mae 'nodweddion personol' yn golygu ymddangosiad rhywun, eu ffordd o fyw, eu diwylliant, eu statws cymdeithasol neu economaidd, neu unrhyw rai o'r nodweddion a warchodir gan ddeddfwriaeth – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**87.** Ni ddylech fynegi eich credoau personol (gan gynnwys credoau gwleidyddol, crefyddol a moesol) i gleifion mewn ffyrdd sy'n manteisio ar eu bregusrwydd neu a allai yn rhesymol beri gofid iddynt. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl ar *Gredoau personol ac arfer meddygol*.

**2.** Yn y canllawiau hyn, sy'n rhan o'r safonau proffesiynol, byddwn yn esbonio sut y mae modd i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel gweithwyr meddygol proffesiynol ac fel 'chi' yn y canllawiau hyn) weithredu'r egwyddorion hyn. Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio arfer da, ac ni fydd pob achos o wyro oddi wrthynt yn cael ei ystyried yn ddifrifol. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i ddilyn y safonau yn eich gwaith o ddydd i ddydd. Os byddwch yn gwneud hyn, byddwch yn gallu egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Rydym yn dweud mwy am farn broffesiynol, a sut mae'r safonau proffesiynol yn ymwneud â'n prosesau, arfarnu ac ailddilysu addasrwydd i ymarfer, ar ddechrau *Arfer meddygol da*. Fel gyda'n holl safonau proffesiynol, mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'n meddygon cofrestredig neu unigolion cofrestredig i'r graddau y maent yn berthnasol i ymarfer yr unigolyn.

## Gwerthoedd a chredoau personol mewn arfer meddygol

**3.** Rydym yn cydnabod bod credoau personol ac arferion diwylliannol yn ganolog i fywydau gweithwyr meddygol proffesiynol a chleifion, a bod gan bob meddyg werthoedd personol sy'n effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. Nid ydym yn dymuno eich atal rhag gweithredu yn unol â'ch credoau a'ch gwerthoedd, ar yr amod eich bod yn dilyn yr arweiniad yn *Arfer meddygol da* hefyd. Nid ydym yn dymuno atal cleifion rhag cael gofal sy'n cyd-fynd gyda neu sy'n bodloni gofynion eu credoau a'u gwerthoedd ychwaith.

## Credoau personol gweithwyr meddygol proffesiynol

**4.** Mae modd i weithwyr meddygol proffesiynol wneud gwaith meddygol yn unol â'u credoau, ar yr amod eu bod yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac:

- nad ydynt yn trin cleifion mewn ffordd annheg
- nad ydynt yn atal cleifion rhag manteision ar wasanaethau neu driniaeth feddygol briodol
- nad ydynt yn peri gofid i gleifion.

Os bydd unrhyw rai o'r amgylchiadau hyn yn debygol o godi, disgwyliwn i chi ddarparu gofal, cyngor neu gymorth effeithiol i gleifion, yn unol ag *Arfer meddygol da*, beth bynnag fo eich credoau personol.[3]

## Materion cyfreithiol

**5.** Fel y mae *Arfer meddygol da* yn nodi mewn ffordd eglur, rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r materion diweddaraf a dilyn y gyfraith sy'n berthnasol i'ch gwaith. Er enghraifft, mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* a deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon yn gwahardd gweithwyr meddygol proffesiynol rhag gwahaniaethu mewn ffordd

uniongyrchol neu anuniongyrchol

yn erbyn eraill, neu aflonyddu arnynt, ar sail nodwedd a ddiogelir[4] pan fyddant yn darparu gwasanaethau meddygol. Yn ogystal, mae rhywfaint o ddeddfwriaeth:

**a.** yn rhoi'r hawl benodol i weithwyr meddygol proffesiynol arfer gwrthwynebiad cydwybodol i'r cam o ddarparu triniaeth neu driniaethau penodol

**b.** yn caniatáu neu'n gwahardd triniaethau penodol.

**6.** Nid yw'r gyfraith yn rhoi rheidrwydd ar weithwyr meddygol proffesiynol i ddarparu triniaethau y maent wedi gwneud asesiad nad ydynt yn briodol ar lefel glinigol, neu nad ydynt yn cynnig budd cyffredinol i'r claf.

**7.** Mae'r atodiad cyfreithiol yn darparu gwybodaeth am rywfaint o ddeddfwriaeth berthnasol. Dylech geisio cyngor cyfreithiol os nad ydych yn siŵr a ydych yn mynd yn groes i'r gyfraith yn y wlad yr ydych yn gweithio ynddi, trwy arfer gwrthwynebiad cydwybodol.

## Gwrthwynebiad cydwybodol

**8.** Efallai y byddwch yn dewis peidio â darparu triniaeth benodol o ganlyniad i'ch gwerthoedd a'ch credoau personol, ar yr amod na fydd hyn yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn erbyn cleifion unigol neu grwpiau o gleifion, neu'n aflonyddu arnynt. Mae hyn yn golygu na ddylech wrthod trin claf penodol neu grŵp o gleifion oherwydd eich credoau personol neu'ch safbwyntiau amdanynt.[5] Ac ni ddylech wrthod trin canlyniadau dewisiadau ffordd o fyw yr ydych chi'n gwrthwynebu iddynt oherwydd eich credoau, ar iechyd.[6]

**9.** Mae gan gyrff cyfogi a chontractio yr hawl i fynnu bod gweithwyr meddygol proffesiynol yn cyflawni gofynion cytundebol[7] y gallent fod yn cyfyngu ar eu rhyddid i weithio yn unol â'u cydwybod. Mae hwn yn fater rhwng gweithwyr meddygol proffesiynol a'u cyrff cyflogi neu gontractio.

**10.** Ar ôl ystyried eich rhwymedigaethau cyfreithiol a moesegol, os byddwch yn dymuno arfer gwrthwynebiad cydwybodol i wasanaethau neu driniaethau penodol, rhaid i chi wneud eich gorau i sicrhau bod cleifion y gallent ymgynghori gyda chi amdanynt, yn ymwybodol o'ch gwrthwynebiad ymlaen llaw. Mae modd i chi wneud hyn trwy sicrhau bod unrhyw ddeunydd argraffedig am eich practis a'r gwasanaethau a ddarperir gennych yn esbonio os na fyddwch yn darparu unrhyw wasanaethau fel arfer oherwydd gwrthwynebiad cydwybodol.

**11.** Yn ogystal, dylech fod yn agored am eich gwrthwynebiad cydwybodol gyda chyflogwyr, partneriaid neu gydweithwyr. Dylech ystyried gyda nhw sut y bydd modd i chi weithredu yn unol â'ch credoau, heb beryglu gofal i gleifion a heb roi baich ormodol ar gydweithwyr.

12. Mae gan gleifion yr hawl i gael gwybodaeth am eu cyflwr a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt. Os bydd gennych chi wrthwynebiad cydwybodol i driniaeth a allai fod yn briodol ar lefel glinigol ar gyfer y claf, rhaid i chi gymryd y camau canlynol.

  a. Dweud wrth y claf nad ydych yn darparu'r driniaeth benodol, gan fod yn ofalus na fyddwch yn peri gofid. Efallai y byddwch yn dymuno sôn am y rheswm dros eich gwrthwynebiad, ond rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn lled-awgrymu unrhyw feirniadaeth o'r claf.

  b. Dweud wrth y claf bod ganddynt yr hawl i drafod eu cyflwr a'r dewisiadau ynghylch triniaethau (gan gynnwys y dewis yr ydych yn gwrthwynebu iddo) gydag ymarferwr arall nad oes ganddynt yr un gwrthwynebiad â chi, ac y byddant yn gallu cynnig cyngor iddynt am y driniaeth yr ydych yn gwrthwynebu iddi

  c. Sicrhau bod gan y claf ddigon o wybodaeth er mwyn trefnu eu bod yn gweld gweithiwr meddygol proffesiynol arall nad oes ganddynt yr un gwrthwynebiad â chi.

13. Os na fydd hi'n ymarferol bod claf yn trefnu gweld gweithiwr meddygol proffesiynol arall, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud – yn ddi-oed – bod cydweithiwr sy'n meddu ar gymhwyster addas yn cynghori, yn trin neu'n cyfeirio'r claf. Rhaid i chi gofio sefyllfa agored i niwed y claf, gan weithredu'n brydlon er mwyn sicrhau na wrthodir triniaeth neu wasanaethau priodol iddynt. Os bydd gan y claf anabledd, dylech wneud addasiadau rhesymol[8] i'ch arfer er mwyn eu galluogi i gael gofal sy'n bodloni eu hanghenion. Mewn argyfyngau, ni ddylech wrthod darparu triniaeth sy'n angenrheidiol er mwyn achub bywyd neu er mwyn atal iechyd unigolyn rhag gwaethygu mewn ffordd ddifrifol oherwydd bod y driniaeth yn mynd yn groes i'ch credoau personol chi.

14. Ni fydd angen i chi o reidrwydd i derfynu ymgynghoriad gyda'ch claf oherwydd bod gennych chi wrthwynebiad i driniaeth a allai fod yn briodol iddynt. Fodd bynnag, os byddwch yn teimlo (neu os bydd y claf yn teimlo) bod eich gwrthwynebiad cydwybodol yn eich atal chi rhag gwneud asesiad gwrthrychol, dylech awgrymu unwaith eto y dylai'r claf geisio cyngor a thriniaeth mewn man arall.

15. Ni ddylech atal cleifion rhag manteisio ar wasanaethau neu eu gadael heb unrhyw le i droi.

16. Beth bynnag fo'ch credoau personol chi am y driniaeth dan sylw, rhaid i chi barchu urddas a safbwyntiau'r claf.

## Sut allai credoau personol claf effeithio ar eu gofal iechyd?

17. Gallai credoau personol cleifion beri iddynt:

- ofyn am driniaeth am resymau crefyddol, diwylliannol neu gymdeithasol yn bennaf
- gwrthod triniaeth yr ydych chi o'r farn ei bod er budd cyffredinol iddynt.

## Triniaethau a ddarperir am resymau crefyddol neu ddiwylliannol yn bennaf

**18.** Os bydd cleifion (neu'r rhai y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant drostynt) yn gofyn am driniaeth, megis enwaedu plant gwrywaidd, am resymau crefyddol neu ddiwylliannol yn bennaf, dylech drafod manteision, risgiau a sgil-effeithiau'r driniaeth gyda nhw. Fel arfer, dylech ddarparu trininaethau[9] y mae cleifion yn gofyn amdanynt ac y byddwch chi yn asesu eu bod er budd cyffredinol y claf. Os mai plentyn yw'r claf, fel arfer, dylech ddarparu triniaeth sydd er eu budd pennaf yn ôl eich asesiad chi. Ym mhob sefyllfa, bydd angen i chi sicrhau cydsyniad y claf neu'r rhiant hefyd.

**19.** Wrth asesu'r hyn sydd er budd cyffredinol cleifion y maent yn oedolion, rhaid i chi ystyried eu gwerthoedd a'u credoau diwylliannol, eu gwerthoedd a'u credoau crefyddol a'u gwerthoedd a'u credoau eraill. Am gyngor pellach ynghylch asesu budd cyffredinol, trowch at ein canllawiau *Gwneud penderfyniadau a chydsynio*[10] a *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau*. [11]

**20.** Os mai plentyn yw'r claf, rhaid i chi symud ymlaen ar sail budd pennaf y plentyn, a gyda chydsyniad. Bydd asesu budd pennaf yn cynnwys gwerthoedd a chredoau[12] diwylliannol, gwerthoedd a chredoau crefyddol a gwerthoedd a chredoau eraill y plentyn a/neu'r rhieni.[13] Dylech sicrhau cydsyniad y plentyn os byddant yn meddu ar yr aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth i'w rhoi. Os na, dylech sicrhau cydsyniad yr holl rai y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant. Os na fydd modd i chi sicrhau cydsyniad ar gyfer triniaeth, er enghraifft, oherwydd nad yw'r rhieni yn gallu cytuno, ac nid oes modd datrys yr anghydfod mewn ffordd anffurfiol, dylech:

- hysbysu rhieni'r plentyn nad oes modd i chi ddarparu'r gwasanaeth oni bai bod y llys yn rhoi'r awdurdod i chi wneud hynny
- cynghori rhieni'r plentyn i geisio cyngor cyfreithiol ynghylch gwneud cais i'r llys.

**21.** Os byddwch yn barnu nad yw triniaeth er budd pennaf plentyn, rhaid i chi esbonio hyn i'r plentyn (os bydd modd iddo ef neu hi ddeall hynny) ac i'w rhieni. Os na fyddwch o'r farn bod y driniaeth yn cynnig budd cyffredinol i glaf sy'n oedolyn, rhaid i chi esbonio hyn iddynt. Ni fydd rheidrwydd arnoch i ddarparu triniaethau mewn achosion o'r fath. Os ydych yn gwrthwynebu i'r driniaeth o ganlyniad i'ch credoau crefyddol neu foesol, dylech ddilyn ein cyngor ynghylch gwrthwynebiad cydwybodol (paragraffau 8-16).

22. Os byddwch yn cytuno cyflawni unrhyw driniaeth am resymau crefyddol neu ddiwylliannol, rhaid i chi fodloni'r un safonau o ran arfer ag y maent yn ofynnol ar gyfer cyflawni triniaeth therapiwtig, gan gynnwys:

- meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol er mwyn cyflawni'r driniaeth a defnyddio mesurau priodol, gan gynnwys anesthesia, i leihau'r boen a'r anesmwythdra yn ystod y driniaeth ac ar ôl hynny, gymaint ag y bo modd
- sicrhau eich bod yn diweddaru'ch gwybodaeth a'ch sgiliau
- sicrhau bod yr amodau yn lanwaith
- darparu ôl-ofal priodol.

**23.** Os ydych yn cyflawni triniaeth enwaedu neu driniaeth arall am resymau crefyddol, dylech esbonio i'r claf (neu, yn achos plant, eu rhieni), y gallant estyn gwahoddiad i'w cynghorydd crefyddol fod yn bresennol yn ystod y driniaeth er mwyn rhoi cyngor ynghylch sut y dylid ei pherfformio er mwyn bodloni gofynion eu ffydd.

## Cleifion sy'n gwrthod triniaeth

**24.** Rhaid i chi barchu penderfyniad claf cymwys i wrthod archwiliad neu driniaeth, hyd yn oed os byddwch o'r farn bod eu penderfyniad yn anghywir neu'n afresymol.[14] Mae modd i chi gynnig eich barn glinigol chi i'r claf, ond ni ddylech roi pwysau arnynt i dderbyn eich cyngor.[15] Rhaid i chi fod yn ofalus na fydd eich geiriau a'ch gweithredoedd yn lled-awgrymu beirniadaeth o'r claf neu eu gwerthoedd a'u credoau.

**25.** Os bydd gennych chi wrthwynebiad cydwybodol – er enghraifft, i'r cam o roi'r gorau i roi triniaeth estyn bywyd – dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 79–80 a 47–48 ein canllawiau *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau*.

**26.** Os mai plentyn nad ydynt yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad yw'r claf, ac os bydd y ddau riant[16] yn gwrthod triniaeth ar sail eu credoau crefyddol neu foesol, rhaid i chi drafod eu pryderon, gan geisio dewisiadau triniaeth a fydd yn addas i'w credoau. Dylech gynnwys y plentyn mewn ffordd briodol i'w hoedran a'u haeddfedrwydd. Ar ôl trafod yr holl ddewisiadau, os na fydd modd i chi gytuno ac os bydd triniaeth yn hanfodol er mwyn diogelu bywyd neu atal iechyd rhag dirywio mewn ffordd ddifrifol, dylech geisio cyngor ynghylch troi at y llys.

**27.** Mewn argyfwng, mae modd i chi ddarparu triniaeth sy'n angenrheidiol ar unwaith er mwyn achub bywyd neu er mwyn atal iechyd yr unigolyn dan sylw rhag gwaethygu, heb sicrhau chydsyniad, neu mewn amgylchiadau arbennig, yn erbyn dymuniadau unigolyn sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant.

**28.** Am gyngor pellach ynghylch rhoi chydsyniad i driniaeth sy'n ymwneud gyda phlant ac oedolion, gan gynnwys oedolion heb alluedd, gweler ein canllawiau *Gwneud penderfyniadau a chydsynio* a *0-18 oed*.

## Trafod credoau personol gyda chleifion

**29.** Wrth asesu cyflyrau claf a chofnodi eu hanes, dylech ystyried ffactorau ysbrydol, crefyddol, cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â'u symptomau a'u hanes clinigol (gweler paragraffau 7a - 7b *Arfer meddygol da*). Felly, efallai y bydd yn briodol holi'r claf am eu credoau personol. Fodd bynnag, ni ddylech roi pwysau ar glaf i drafod neu i gyfiawnhau eu credoau, neu absenoldeb y rhain.

**30.** Yn ystod ymgynghoriad, dylech sicrhau eich bod yn cadw'r drafodaeth yn berthnasol i ofal a thriniaeth y claf. Os byddwch yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol i glaf, gan gynnwys trafod credoau personol gyda chlaf, rhaid i chi fod yn ofalus iawn na fyddwch yn torri'r terfyn proffesiynol[17] sy'n bodoli rhyngoch chi. Mae'r terfynau hyn yn hanfodol er mwyn cynnal perthynas o ymddiriedaeth rhwng gweithiwr meddygol proffesiynol a chlaf.

**31.** Mae modd i chi drafod eich credoau personol chi, ond dim ond os bydd claf yn eich holi amdanynt mewn ffordd uniongyrchol, neu'n dynodi y byddent yn croesawu trafodaeth o'r fath. Ni ddylech wthio eich credoau a'ch gwerthoedd ar gleifion, neu beri gofid trwy eu mynegi mewn ffordd amhriodol neu ddideimlad.

## Atodiad cyfreithiol

Mae'r atodiad hwn at ddibenion cyfeirio yn unig. Ni fwriedir iddo gynnig datganiad cynhwysfawr o'r gyfraith neu restr o'r ddeddfwriaeth a chyfraith achosion berthnasol, ac nid oes modd iddo ddisodli'r cyngor cyfreithiol diweddaraf ychwaith.

### *Deddf Erthyliadau 1967*

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, caiff yr hawl i wrthod cymryd rhan mewn triniaeth terfynu beichiogrwydd (ac eithrio pan fo'r terfyniad yn angenrheidiol er mwyn achub bywyd neu atal anaf difrifol i'r fenyw sy'n feichio), ei diogelu gan y gyfraith dan adran 4(1) y Ddeddf.

Mae'r hawl hon wedi'i chyfyngu i wrthod cymryd rhan yn y driniaeth (triniaethau) eu hunain ac nid i'r broses o gynnig gofal, cyngor neu reolaeth cyn y driniaeth neu ar ôl y driniaeth, gweler achos Janaway: Janaway v Awdurdod Iechyd Ardal Salford [1989] 1 AC 537

## Gogledd Iwerddon

Nid yw *Deddf Erthyliadau 1967* yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Y ddeddfwriaeth berthnasol yng Ngogledd Iwerddon yw *Deddf Troseddau Corfforol 1861 a Deddf Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1945*.

# *Deddf Ffrwythloniad Dynol ac Embryoleg 1990*

Mae adran 38 y Ddeddf yn atal unrhyw ddyletswydd rhag cael ei rhoi ar unigolyn i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch a lywodraethir gan y Ddeddf.

# *Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*

Mae'r Ddeddf hon yn gwahardd amrediad o driniaethau ar organau cenhedlu benywod, ac eithrio lle y mae angen eu cyflawni am resymau iechyd neu er mwyn cynorthwyo wrth eni plentyn. Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn codi materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

Diwygiwyd y Ddeddf hon gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2015, a wnaeth gyflwyno dyletswyddau ar feddygon yng Nghymru a Lloegr i adrodd am achosion hysbys o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched a menywod ifanc dan 18 oed i'r heddlu. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Hydref 2015.

Am wybodaeth bellach, gweler ein canllawiau *Amddiffyn plant a phobl ifanc*.

# Deddf Cydraddoldeb 2010 (a deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon)

Mae'r *Ddeddf Cydraddoldeb* a deddfwriaeth gyfatebol yn gwahardd gwahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu uniongyrchol neu anuniongyrchol ar gleifion ar sail nodwedd a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fydd unigolyn yn trin unigolyn arall mewn ffordd lai ffafriol nag y maent yn trin neu y byddent yn trin eraill, oherwydd nodwedd a ddiogelir.

Bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd unigolyn (A) yn gweithredu darpariaeth, maen prawf neu arfer ar gyfer unigolyn arall (B), y mae'n ymddangos yn niwtral, ond

y mae'n rhoi B dan anfantais a phobl eraill y mae B yn rhannu nodwedd a ddiogelir gyda nhw, ac nad oes modd dangos bod hynny yn rhywbeth y mae modd ei gyfiawnhau.

Bydd aflonyddu yn digwydd pan fydd ymddygiad unigolyn yn ymyrryd ag urddas unigolyn arall neu'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i'r unigolyn hwnnw, neu pan fo'r ymddygiad yn cael yr effaith honno (adran 26). Am fanylion pellach ynghylch gweithredu nodweddion a ddiogelir a gwahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau iechyd, trowch at y *Ddeddf Cydraddoldeb* neu dylech geisio cyngor cyfreithiol.

## Deddf Cydnabod Rhyw 2004

Mae *Deddf Cydnabod Rhyw 2004* yn pennu cyfrifoldebau penodol ynghylch cynnal cyfrinachedd. Mae Adran 22 y Ddeddf yn nodi ei bod yn drosedd i unrhyw unigolyn y maent wedi sicrhau gwybodaeth o ganlyniad i rôl swyddogol, ddatgelu bod gan unigolyn dystysgrif cydnabod rhyw neu wneud unrhyw beth a fyddai'n gwneud datgeliad o'r fath. Mae *Gorchymyn Cydnabod Rhyw* (*Eithriadau i'r Drosedd o Ddatgelu*) 2005 yn creu eithriad i Adran 22 ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, lle y mae'r:

- Datgeliad yn cael ei wneud i weithiwr gofal iechyd proffesiynol
- Caiff y datgeliad ei wneud at ddibenion meddygol, ac
- Mae'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad o'r farn resymol bod yr unigolyn dan sylw wedi rhoi eu cydsyniad i'r datgeliad neu nad oes modd iddynt roi cydsyniad o'r fath.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU. Mae Erthygl 9 y Confensiwn yn ymwneud â'r hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd. Mae'n cynnig hawl absoliwt o ran meddu ar gred, ond mae'r hawl i weithredu yn unol â hawliau neu i fynnu bod eraill yn cydymffurfio gyda nhw yn destun amod, ac nid oes modd ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo gweithredu sy'n tramgwyddo hawliau a rhyddid eraill.

# Ôl-nodiadau

**1** Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arfer meddygol da* Llundain, GMC.

**2** Mae hyn yn cynnwys eich safbwyntiau am ffordd o fyw, diwylliant neu statws cymdeithasol neu economaidd claf neu gydweithiwr, yn ogystal â'r nodweddion sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

3 Er enghraifft, os mai chi yw'r unig feddyg sy'n meddu ar y statws cyfreithiol i lofnodi tystysgrif amlosgi, ni ddylech wrthod gwneud hynny ar sail eich gwrthwynebiad personol neu grefyddol chi i amlosgi.

4 Rhoddir esboniad o'r termau 'gwahaniaethu', 'aflonyddu' a 'nodwedd a ddiogelir' yn yr atodiad cyfreithiol ar dudalennau 6-7.

5 Er enghraifft, mae hyn yn golygu na ddylech wrthod darparu gwasanaethau meddygol i glaf oherwydd bod y claf yn bwriadu ymgymryd â phroses ailbennu rhywedd neu eu bod yn mynd trwy broses o'r fath ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae modd i chi benderfynu peidio darparu neu gyfeirio unrhyw gleifion (gan gynnwys cleifion y maent yn bwriadu ymgymryd â phroses ailbennu rhywedd) am wasanaethau penodol y mae gennych chi wrthwynebiad cydwybodol iddynt, er enghraifft, triniaethau sy'n achosi anffrwythlondeb.

6 Er enghraifft, er y byddwch yn penderfynu peidio darparu dulliau atal cenhedlu (gan gynnwys atal cenhedlu brys) i unrhyw glaf, mae hyn yn golygu nad oes modd i chi fod yn fodlon eu presgripsiynu i fenywod sy'n byw yn unol â'ch credoau chi yn unig (ee trwy bresgripsiynu ar gyfer menywod priod ond nid ar gyfer menywod di-briod).

7 Ac eithrio pan na fydd y gofynion hynny yn cyd-fynd gyda deddfwriaeth neu pan fo'r gyfraith yn cynnig amddiffyniad ar sail cydwybod

8 Mae hwn yn ofyniad dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Nid yw 'addasiadau rhesymol' yn golygu newidiadau i'r amgylchedd ffisegol yn unig. Gall gynnwys, er enghraifft, bod yn hyblyg ynghylch amser neu hyd apwyntiad, a gwneud trefniadau ar gyfer y sawl y mae ganddynt anawsterau cyfathrebu, megis nam ar eu clyw. Am ragor o wybodaeth, trowch at wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (www.equalityhumanrights.com/advice-andguidance).

9 Pan fyddwch yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i wneud hynny mewn ffordd ddiogel.

10 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2020) *Gwneud penderfyniadau a chydsynio* Llundain, GMC.

11 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2010) *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau* Llundain, GMC. Gweler paragraffau 13 a 40–46.

**12** Yma, mae 'rhieni' yn golygu'r holl rai sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

**13** Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch trin cleifion 0-18 oed. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2007) *0–18 oed* Llundain, GMC, paragraffau 34–35.

**14** Ymddiriedolaeth GIG Airedale v Bland [1993] 1 All ER 821; Re JT (Oedolyn: Gwrthod Triniaeth Feddygol) [1998] 1 FLR 48 ac Re AK (Triniaeth Feddygol: Cydsyniad) [2001] FLR 129.

**15** Er enghraifft, mae gan nifer o Dystion Jehofa wrthwynebiadau cryf i ddefnyddio gwaed a chynhyrchion gwaed, a bydd nifer yn eu gwrthod hyd yn oed os byddant yn marw o ganlyniad efallai. Mae modd i bwyllgorau cyswllt ysbyty a sefydlwyd gan Gymdeithas y Ddisgwylfa (corff llywodraethu Tystion Jehofa) gynnig cyngor ynghylch polisi cyfredol y Gymdeithas. Yn ogystal, maent yn cadw manylion am ysbytai a meddygon y mae ganddynt brofiad ym maes triniaethau meddygol 'heb waed'.

**16** Mae cydsyniad un rhiant yn ddigonol, gweler Re N (Plentyn: Crefydd: Tyst Jehofa) [2011] EWHC 3737 (Fam); C (Plentyn: Ymwneud â Chrefydd Tystion Jehofa) [2017] EWFC B29.

**17** Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau ynghylch cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2024) *Cynnal terfynau personol a phroffesiynol* Llundain, GMC.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

## Ymunwch â'r sgwrs

**@gmcuk** **facebook.com/gmcuk**
**linkd.in/gmcuk** **youtube.com/gmcuktv**

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **gmc@gmc-uk.org**.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

© 2013 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/PBMP/1224